# Crizotinib ar gyfer canser yr ysgyfaint cinas lymffoma anaplastig-positif datblygedig lle nad yw'r celloedd yn fach a driniwyd yn flaenorol

21 Rhagfyr 2016

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir crizontinib (Xalkori) ar gyfer oedolion sydd â chanser yr ysgyfaint cinas lymffoma anaplastig (ALK)-positif datblygedig lle nad yw'r celloedd yn fach fel triniaeth bosibl pan fydd y canser wedi'i drin yn flaenorol.

### Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os oes gennych ganser yr ysgyfaint ALK-positif lle nad yw'r celloedd yn fach, a bod eich meddyg yn credu mai crizotinib yw'r driniaeth gywir, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

### Y cyflwr a'r driniaeth

Caiff canser yr ysgyfaint ei ddosbarthu yn grwpiau o ddau brif fath o ganser, gan ddibynnu ar ei ymddangosiad o dan ficrosgop: canser yr ysgyfaint celloedd bach a chanser yr ysgyfaint lle nad yw'r celloedd yn fach. Gall y celloedd canser gael eu profi i weld a ydynt yn ALK-positif, hynny yw, bod mwtadiadau (newidiadau) wedi bod i'r genyn ALK. Mae'r newidiadau hyn yn achosi i'r celloedd canser gynhyrchu gormod o ALK, sy'n ysgogi iddynt dyfu.

Mae canser datblygedig yn golygu ei fod wedi lledaenu o'r man lle dechreuodd.

Mae crizotinib yn gweithio drwy rwystro ALK, gan arafu twf y celloedd canser yr ysgyfaint ALK-positif.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint, 0300 003 0555
- Gwybodaeth i Gleifion Ymchwil Canser y DU (CancerHelp UK yn flaenorol), 0808 800 4040
- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 0000
- Sefydliad Canser yr Ysgyfaint Roy Castle, 0333 323 7200

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2319-9